Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pentre'r Graig

School Road
Treforys
SA6 6HZ

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Pentre’r Graig

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Pentre’r Graig |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 304 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 226 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 33 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 32.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 9.3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 20.4% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | Ebrill 2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 11/06/2018 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 19/05/2025 |

Daw’r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i’r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (llyw.cymru)]

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Pentre'r Graig yn ysgol hapus a chynhwysol lle mae disgyblion a'u teuluoedd yn cael eu croesawu a'u dathlu. Mae arweinwyr wedi cydweithio'n llwyddiannus â chymuned gyfan yr ysgol i sefydlu gweledigaeth gytûn ar gyfer yr ysgol a'i disgyblion, sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd cadarnhaol a pharch. Mae staff yn adlewyrchu'r weledigaeth yn effeithiol trwy eu dulliau addysgu a'u rhyngweithiadau. Maent yn ffurfio perthnasoedd cynnes ac ymddiriedus â disgyblion sydd, yn eu tro, yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu clywed. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos gofal, ystyriaeth a pharch tuag at ei gilydd. Maent yn falch o'u hysgol ac yn dysgu â brwdfrydedd heintus.

Mae staff wedi creu amgylchedd dysgu pwrpasol sy'n adlewyrchu cymuned amrywiol yr ysgol ac yn hybu ei diwylliant Cymreig. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn ysgogol ac wedi'u trefnu'n dda. Maent yn galluogi disgyblion o bob oed i ddewis sut byddant yn gweithio orau, boed hynny'n unigol neu mewn grwpiau bach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dewis adnoddau priodol yn annibynnol i'w helpu i gwblhau eu gwaith.

Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) yn gryfder sylweddol yn yr ysgol. Mae staff yn achub ar bob cyfle i gyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach trwy brofiadau diwylliannol a phrofiadau bywyd disgyblion.

Dros gyfnod, mae staff wedi ymwreiddio cwricwlwm eang ac ysgogol. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso ystod o fedrau. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn esbonio tasgau dysgu annibynnol yn ddigon da i ddisgyblion gael dealltwriaeth glir o'u dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg. Mae disgyblion iau yn datblygu lefel uchel o hyder wrth siarad Cymraeg trwy ymarfer yn rheolaidd yn ystod y diwrnod ysgol. Nid yw disgyblion hŷn yn cael digon o gyfleoedd i adeiladu ar eu medrau Cymraeg yn briodol ac mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt.

Mae diwylliant diogelu addas yn yr ysgol ac mae'r holl staff yn gofalu am ddisgyblion mewn modd ystyriol a meddylgar. Nid yw'r staff yn glir ynghylch eu dyletswydd yn ymwneud ag Atal (Prevent).

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1. Mynd i'r afael â'r mater diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2. Sicrhau bod gan bob disgybl ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir ganddynt wrth ddysgu'n annibynnol

A3. Datblygu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r pennaeth wedi ymwreiddio gweledigaeth glir sy'n hybu ac yn datblygu diwylliant o barch, lles a chynhwysiant yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn ceisio barn ystod eang o randdeiliaid wrth werthuso pa mor dda y mae'r ysgol yn bodloni anghenion disgyblion a'r gymuned leol.

### Ciplun 1: Ymagwedd wedi'i seilio ar werthoedd tuag at wella ymgysylltiad disgyblion

Mae gwerthoedd craidd yr ysgol, sef teyrngarwch, empathi, dyhead, gwydnwch ac anogaeth yn ganolog i'r holl ddysgu. Mae staff yn modelu'r gwerthoedd hyn yn eithriadol o dda. Mae profiadau dysgu wedi'u cynllunio'n ofalus yn helpu disgyblion o bob oed i ddatblygu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol dros ben tuag at ddysgu a lefelau uchel o ymgysylltiad. Maent yn dangos caredigrwydd, parch ac ystyriaeth tuag at ei gilydd y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut. Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn bwrpasol, gan gefnogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gref ac empathig o fywydau pobl eraill, nawr a thrwy hanes. Nodwedd gref o waith yr ysgol yw ei darpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant, treftadaeth ac amrywiaeth, sy'n ennyn diddordeb disgyblion o bob oed.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn archwilio eu credoau eu hunain a chredoau pobl eraill trwy ystod ddefnyddiol o brofiadau uniongyrchol, fel ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau crefyddol lleol. Mae ymagwedd yr ysgol tuag at Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn dra ystyriol ac yn ystyrlon. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hunaniaeth, rhywedd, tegwch, hawliau ac eiriolaeth. Trwy ddysgu am y Swffragetiaid, er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ennill dealltwriaeth gadarn o anghydraddoldeb cymdeithasol ac effaith menywod hanesyddol ar newid.

## Ciplun 2: Dathlu cymuned amrywiol yr ysgol

Mae'r ysgol yn cipio ac yn dathlu ei chymuned amrywiol yn eithriadol o dda. Mae staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o ieithoedd sy'n cael eu siarad a'r ystod o ddiwylliannau a chrefyddau sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae staff yn darparu trefniadau ymsefydlu estynedig a dulliau effeithiol, sy'n aml yn arloesol, o ddatblygu iaith a chyfathrebu i deuluoedd a disgyblion y mae'r Saesneg yn newydd iddynt. Mae disgyblion yn y grŵp Dehonglwyr Ifanc yn cynnig cymorth cyfieithu buddiol i'r disgyblion ieuengaf wrth iddynt ymgartrefu yn eu dosbarth. Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion i gwblhau gwaith cartref ac ymchwil yn eu mamiaith.

Mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n effeithiol ar ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl staff sy'n gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu sy'n cael eu darparu. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol i symud dysgu disgyblion ymlaen ar gyflymder da. Mae bron pob un o'r staff yn datblygu strategaethau marcio ac adborth effeithiol. Maent yn cynnig amser gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i wella eu gwaith eu hunain. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn esbonio tasgau dysgu annibynnol yn ddigon da i ddisgyblion ennill dealltwriaeth dda o'u dysgu.

Mae staff yn ystyried anghenion unigol disgyblion yn ofalus. Maent yn dylunio ac yn addasu amgylcheddau'r ystafell ddosbarth yn bwrpasol er mwyn sicrhau bod pob disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu dysgu. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn defnyddio prosesau effeithiol i asesu a monitro cynnydd disgyblion. Mae ystod o raglenni ymyrraeth yn darparu cymorth academaidd ac emosiynol effeithiol i ddisgyblion bregus. Mae staff yn narpariaeth anogaeth yr ysgol yn cynnig cymorth hynod effeithiol a phwrpasol ar gyfer medrau cymdeithasol ac emosiynol cynnar disgyblion iau, gan helpu disgyblion i ymgartrefu yn yr ysgol yn raddol cyn ymuno â'r prif ddosbarthiadau.

Mae athrawon yn cydweithio â'i gilydd i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gynyddol. Maent yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r medrau hyn. Ar draws yr ysgol, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer datblygiad mathemategol disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau mathemateg yn hyderus ac yn gwneud cynnydd cryf. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd arloesol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Wrth iddynt wneud cynnydd, mae bron pob un o'r disgyblion yn dewis ac yn defnyddio offer digidol mwyfwy soffistigedig yn effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion hŷn, er enghraifft, yn defnyddio deallusrwydd artiffisial yn effeithlon wrth ymchwilio i wybodaeth ar gyfer

adroddiadau ysgrifenedig. Maent yn ysgrifennu rhaglenni i animeiddio cysyniadau gwyddonol, fel y cylchred dŵr, ac yn dangos gwydnwch wrth nodi gwallau yn eu rhaglenni.

Mae'r ysgol yn hybu'r Gymraeg yn dda ac mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd dros ddysgu Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion iau yn datblygu eu medrau Cymraeg yn dda yn ystod y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, cânt lai o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau Cymraeg ac mae llawer o ddisgyblion yn brin o hyder wrth siarad Cymraeg.

Mae ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am fyd gwaith a datblygu eu dyheadau. Mae disgyblion yn elwa ar brofiadau dysgu ymarferol, uniongyrchol sy'n eu galluogi i gael mewnwelediad i lwybrau gyrfa posibl. Mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd helaeth i greu gwaith celf eu hunain gan ddefnyddio gwaith artistiaid adnabyddus fel symbyliad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu darnau diddorol ac yn dangos dyfalbarhad wrth weithio.

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel ar sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae staff yn meithrin perthynas agos rhwng yr ysgol a'r cartref, gan ddatblygu dealltwriaeth glir o amgylchiadau teuluoedd unigol. Mae staff yr ysgol yn monitro presenoldeb yn ofalus ac yn defnyddio ystod o strategaethau effeithiol i gynnig cymorth cynnar, yn ôl y gofyn.

Mae gan y corff llywodraethol rôl ragweithiol mewn cefnogi'r ysgol a dwyn arweinwyr i gyfrif yn onest ac yn gadarn. Mae llywodraethwyr yn ymgysylltu'n dda â staff a phartneriaid allanol i ddatblygu blaenoriaethau gwella'r ysgol a sicrhau bod eu gwerthusiadau o berfformiad yr ysgol yn gywir. Ar y cyd ag arweinwyr, mae llywodraethwyr yn rhoi gwerth uchel ar gefnogi lles staff.

Ar y cyfan, mae diwylliant diogelu addas yn yr ysgol. Mae'r holl staff yn dilyn y rhan fwyaf o weithdrefnau cytûn yn ddiwyd, ond nid ydynt yn glir ynghylch eu dyletswydd yn ymwneud ag Atal (Prevent).

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2025